GIG CYMRU NHS WALES

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Tiwtor Hyfforddiant Sgiliau Gwella Ansawdd (QIST)

2021-22

Cynnwys

Cyflwyniad i QIST.....2

Tîm QIST.....4

Hyfforddiant Gwella QIST ar Waith.....5

Prosiectau Gwella Ansawdd.....6

Dull Gwella QIST i Werthuso Rhaglenni.....9

Arloesi QIST mewn Ymarfer.....9

- Cyflwyno Hanfodion Gwella fel rhan o gwricwlwm gwella sbiral wedi'i ddiweddaru i Gymru.....9
- ·Defnyddio Amgylcheddau Dysgu Rhithwir ar gyfer Hyfforddiant a Mentora.....12
- ·Rhaglen Hyfforddwyr QIST ar gyfer Goruchwylwyr Addysgol a Goruchwylwyr Clinigol.....14
- ·Rhaglenni QIST newydd ar gyfer Rhaglen Graddedigion a Rhaglen Interniaeth AaGIC 2022.....15

Cefnogi Gwelliant ac Arloesi ar draws y System Gofal Iechyd Ehangach yng Nghymru.....16

- Rhaglen Arweinydd Gwella'r Alban (SciL) Academi Gwella Cymru 2021/22.....17
- Gwobr Gwella AaGIC.....18
- Gwella Ansawdd trwy Efelychu.....18
- Rhaglen Cynaliadwyedd QIST.....18
- Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol Uwch.....19

Gwybodaeth bellach.....19

QIST - Cyflwyniad.

Mae Tîm Sgiliau Gwella Ansawdd AaGIC (QIST) yn darparu hyfforddiant Gwella Ansawdd (QI) o ansawdd uchel ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ledled Cymru.

Mae QIST yn gweithio mewn partneriaeth â Gwelliant Cymru i ddatblygu a darparu rhaglen hyfforddiant Gwella Ansawdd unigryw i Gymru. Mae methodoleg Gwella Ansawdd yn rhoi i weithwyr gofal iechyd proffesiynol y wybodaeth a'r sgiliau y gellir eu defnyddio i weithredu newidiadau i wella gwasanaethau iechyd a'r amgylchedd dysgu.

Mae'r rhaglen QIST yn cyflenwi'r gwahanol ofynion o gwricwla ôl-raddedig ac mae'n cyd-fynd â rhaglenni asesu penodol ar draws gwahanol feysydd arbenigol. Mae hyn yn adlewyrchu'r pwyslais cynyddol ar QI fel rhan o hyfforddiant ôl-raddedig ac mae'n elfen gynhenid o amcanion strategol y sefydliad cyfan. Mae'r rhaglen QIST hefyd yn gweithio i ymgorffori sgiliau QI o fewn sefydliad a strwythur AaGIC.

Mae cynnwys y rhaglen QIST wedi'i fapio yn ôl gofynion unigol y cwricwla hyfforddiant perthnasol, i gefnogi dilyniant llwyddiannus drwy'r camau hyfforddi. Mae'n cefnogi ystod o gyfleoedd hyfforddi QI drwy e-ddysgu, rhithwir ac wyneb yn wyneb yn ogystal ag adnoddau fel rhan o gwricwlwm QI sbiral i Gymru.

Cwricwlwm QI sbiral a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Gwelliant Cymru fel rhan o Gyfres Gwelliant i gefnogi dysgu a datblygu yng Nghymru:



Mae'r rhaglen hyfforddiant gwella unigryw hon yn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth gwella ar bob cam, i gefnogi unigolion a'r timau y maent yn gweithio ynddynt, i arwain gwelliannau yn eu maes o ddiddordeb dewisol.

Mae modiwl e-ddysgu **Efydd IQT** yn fodiwl e-ddysgu mynediad agored sydd ar gael i bob aelod o weithlu GIG Cymru. Mae'r rhan hon o'r rhaglen yn cael ei diwygio a'i diweddaru i ffurfio'r modiwl '**Sylfeini mewn Gwelliant**' newydd a bydd yn cael ei lansio gan Gwelliant Cymru'r hydref hwn.

Mae Hanfodion Gwella yn adeiladu ar egwyddorion gwelliant mewn IQT Efydd a'r Sylfeini mewn Gwelliant newydd, gyda ffocws ar offer a thechnegau i ddeall y system, defnyddio data dros amser fel rhan o ddull parhaus o wella a defnyddio'r Model ar gyfer Gwella

Mae Gwella Ymarfer (Silver IQT gynt) yn cefnogi unigolion i arwain prosiect gwella â ffocws mewn maes sydd o ddiddordeb iddynt eu hunain ar draws meysydd diogelwch cleifion, lles a chynaliadwyedd amgylcheddol.

Mae'r dull cwricwlwm sbiral a arweinir gan QIST yn integreiddio cydrannau presennol, uchel eu parch, gan gynnwys Gwella Ymarfer ac yn adeiladu ar brofiad hyfforddwyr ar draws gwahanol leoliadau gofal iechyd Cymru i gwmpasu rhaglen hyfforddi QI gynhwysfawr i Gymru.

Tîm QIST.

Mae'r Tîm QIST yn grŵp aml-broffesiynol sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu a chyflwyno rhaglen QIST AaGIC ar draws meysydd addysg, hyfforddiant a gwelliant. Mae Tiwtoriaid QIST i gyd wedi'u hyfforddi i lefel Ymgynghorydd Gwella (IA) uwch mewn methodoleg gwella.

Hyfforddiant Gwella QIST ar Waith.

Roedd 2021/22 yn flwyddyn lwyddiannus i QIST gyda 459 o bobl wedi'u hyfforddi. Mae hyn yn gynnydd o 38.25% ers 2020/21 lle cafodd 332 o bobl eu hyfforddi, ac 85% ers 2018/19, lle cafodd 248 o bobl eu hyfforddi.

Yn 2021/22, cyflwynodd QIST 44 o weithdai, gyda 25 o'r rhain yn Hanfodion Gwella ac 19 yn Gwella Ymarfer. O'r 459 o bobl a gwblhaodd hyfforddiant QI y llynedd, cwblhaodd 308 y cwrs Hanfodion Gwella a chyflawnodd 151 hyfforddiant ar lefel Gwella Ymarfer.

Dyma'r nifer uchaf o bobl a hyfforddwyd mewn blwyddyn ers sefydlu QIST yn 2016, er gwaethaf pandemig COVID-19. Darparwyd hyfforddiant ar draws ystod o arbenigeddau, hyfforddiant Sylfaen, Deintyddol, Fferylliaeth, AaGIC a Chymrodyr Hyfforddiant Arweinyddiaeth Glinigol Cymru.

Mae gweithdai'n derbyn adborth rhagorol yn gyson gyda 93.6% o holl weithdai Gwella Ymarfer 2021/22 yn derbyn adborth 'da/rhagorol' ac 89% o holl weithdai Hanfodion Gwella 2021/22 yn derbyn yr un peth.

Mae'r prosiectau sydd wedi'u cwblhau fel rhan o'r hyfforddiant wedi dangos gwelliannau go iawn ym mhrofiad cleifion yng Nghymru ac, mewn rhai achosion, maent wedi arwain at ledaenu'r gwelliannau hyn ar draws gwahanol ranbarthau Cymru.

Mae adborth ansoddol yn cynnwys:

> “Tîm mor hygyrch sy'n mynd y tu hwnt i'r cwrs 2 ddiwrnod. Amgylchedd cyfeillgar iawn i ddysgu a datblygu sgiliau ac un o'r cyrsiau gorau rwyf wedi bod arno drwy gydol fy hyfforddiant meddygol”

> “Gwybodaeth wedi'i chyflwyno'n dda a oedd yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i strwythuro QI yn y dyfodol. Gwerthfawrogi dilyniant gan y mentor yn fawr. Siaradwyr angerddol sy’n rhyngweithio’n dda”

Prosiectau Gwella Ansawdd.

Isod mae rhai enghreifftiau o brosiectau nodedig sydd wedi cael eu cynnal ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd, deintyddol a fferylliaeth.

Gofal Eilaidd

Enillydd Gwobr Gwella LINCymru yn 2020 oedd Dr Tom Rees, Anesthetydd a'i brosiect:

Gwella Rheoli Torasgwrn yr Asen yn Ysbyty Treforys; Defnyddio QI i Ddatblygu Gwasanaeth Cathetr Arwyneb yr Erector Spinea.

Cyhoeddwyd y prosiect hwn yn y BMJ yn 2021, gyda chefnogaeth QIST. Pan ofynnwyd iddo am ei brofiad o ymgymryd â hyfforddiant QIST, dywedodd Dr Rees:

> Roedd hyfforddiant QIST yn symleiddio'r broses QI gyfan ac yn canolbwyntio ar rai hanfodion sylfaenol y gallwn i eu deall.
>
> Yn benodol, roedd defnyddio mapio prosesau i resymoli camau yn llwybr y cleifion, a siartiau data parhaus i ddadansoddi a oedd fy ymyriadau yn cael unrhyw effaith yn sylweddol wahanol i'r strategaeth cylch archwilio draddodiadol yr oeddwn yn gyfarwydd â hi.
>
> Cefais gefnogaeth dda gan y tîm QIST yn ystod y broses ysgrifennu a chefais fy nghyfarwyddo er mwyn cael y gorau o'r prosiect ar gyfer fy CV.
>
> Rwy'n dal i ddefnyddio'r egwyddorion hyn a addysgir yn ystod hyfforddiant IQT arian yn ABUHB fel rhan o dîm QI yr adran trawma.

Fferylliaeth

Prosiect nodedig ar gyfer 2021/22 yw un Kelly Jones, Fferyllydd Clinigol BIP Bae Abertawe.

Argymhellwyd bod prosiect Kelly, '*Gwella'r broses o gysoni meddyginiaethau mewn cleifion dementia yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot*', yn cael ei rannu'n eang ledled Cymru oherwydd y materion penodol o ran diogelwch cleifion sy'n cael sylw.

> Priodolodd Kelly hyfforddiant QIST i lwyddiant ei phrosiect, gan ddweud bod yr hyfforddiant yn...
>
> amhrisiadwy, yn dangos offer a methodolegau defnyddiol, yn cydgrynhoi pwysigrwydd gwaith tîm i wella gofal sy'n canolbwyntio ar y claf ac mai hwn oedd y prif ysgogiad i weld newid yn digwydd.

Deintyddiaeth

Prosiect nodedig ar gyfer 2021/22 yw un Alexandra Rawlins, Hyfforddai Deintyddol Craidd – blwyddyn 2 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Dylai prosiect Alexandra, '*Gwella Diogelwch Llawfeddygol ar gyfer Echdyniadau Deintyddol yn Uned Addysgu Ddeintyddol y Porth*', gael ei rannu'n eang ledled Cymru oherwydd y mater pwysig o ddiogelwch cleifion yr ymdrinnir ag ef yn y prosiect.

> Myfyriodd Alexandra ar lwyddiant ei phrosiect, gan ddweud bod y prosiect Gwella Ymarfer...
>
> “Yn mynd i'r afael â materion diogelwch allweddol ym maes deintyddiaeth y GIG ac yn cydnabod roedd cyfranogiad gan y tîm drwy gydol y prosiect yn hanfodol.”

Gofal Sylfaenol

Prosiect gwella ansawdd rhagorol o ofal sylfaenol yw prosiect gwella ansawdd Dr Joy McFadzean, Meddyg Teulu a'i phrosiect, 'R*hagnodi Uniongyrchol o wrthgeulydd a gymerir drwy'r geg (DOAC) ym Meddygfa Clydach, Abertawe*'.

Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar wella monitro, addysg a rheolaeth amlbroffesiynol o DOACs o fewn y gofal sylfaenol cymunedol.

> “Ar ôl mwynhau cynnal prosiectau gwella ansawdd fel hyfforddai Meddyg Teulu, roeddwn i eisiau dysgu mwy am ddamcaniaeth QI - ac roeddwn i wrth fy modd yn mynychu'r cwrs 'IQT Silver' gyda chefnogaeth AaGIC.
>
> Roedd yr hyfforddiant yn wych, ac roedd anogaeth gan fentor QI profiadol wedi fy helpu i ddefnyddio'r sgiliau hynny gyda phrosiect yn monitro meddyginiaeth gwrthgeuliad mewn gofal sylfaenol.
>
> Helpodd QIST fi i gynllunio, defnyddio offer QI a fy atgoffa i ddogfennu pob cam o'r broses i ddeall beth oedd yn cael yr effaith fwyaf. Fe wnaeth y cwrs fy ysbrydoli i barhau â fy nhaith QI ac rwyf bellach yn dysgu QI i fyfyrwyr meddygol fel Darlithydd Meddyg Teulu. Byddwn yn annog pawb i fynychu QIST gan ei fod yn amhrisiadwy, bydd yn eich helpu yn eich rolau ac yn helpu i gefnogi gwelliannau o ran diogelwch cleifion.”

Dull Gwella QIST i Werthuso Rhaglenni.

Mae QIST yn defnyddio dull gwella ar draws pob agwedd o'i system addysg a hyfforddiant i feithrin capasiti a gallu mewn sgiliau gwella yng Nghymru.

Mae'r Tîm QIST yn defnyddio cyfuniad o Adborth Meintiol ac Ansoddol i werthuso'r rhaglen QIST, profi a gweithredu syniadau am newid yn y dyfodol a llywio strategaeth system addysgol y dyfodol.

Mae'r tîm wedi datblygu a mabwysiadu 'teulu o fesurau' er mwyn asesu effaith newidiadau i'r rhaglen ac i lywio datblygiad a gweithrediad yn y dyfodol. Ein nod yw “hyfforddi unigolion i wella ansawdd i'w galluogi, fel arweinwyr tîm, i arwain prosiect QI sy'n bwysig i gleifion a staff”. Mae'r teulu o fesurau yn cynnwys canlyniadau, proses a mesurau cydbwyso.

Mae'r dull hwn yn ein galluogi i werthuso effaith newidiadau i'r rhaglen a nodi meysydd arloesi a gwella megis y cwricwlwm sbiral wedi'i ddiweddaru, yn ogystal â chyflwyno agweddau newydd ar y rhaglen, megis Hanfodion Gwella a dulliau newydd.

Mae'r dull unigryw hwn o werthuso rhaglenni fel rhan o ffocws ar wella systemau addysg a hyfforddiant yn ehangach, wedi'i dderbyn i'w gyflwyno yng nghyfarfod Fforwm Rhyngwladol y Sefydliad Gwella Gofal Iechyd (IHI) 2022/23 a bydd yn destun cyhoeddiad a chyflwyniad yn y dyfodol.

Bydd hyn yn caniatáu i dîm QIST rannu'r dull hwn gydag eraill sydd hefyd yn ceisio gwella systemau addysgol ac alinio gwerthuso â'u strategaeth ar gyfer gwella.

QIST Innovation in Practice.

Mae enghreifftiau o rai o'r meysydd arloesi a'u heffaith ar hyfforddiant gwella a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Cyflwyno Hanfodion Gwella fel rhan o gwricwlwm gwella sbiral wedi'i ddiweddaru i Gymru
- Defnyddio Amgylcheddau Dysgu Rhithwir ar gyfer Hyfforddiant a Mentora
- Rhaglen Hyfforddwyr QIST ar gyfer Goruchwylwyr Addysgol a Goruchwylwyr Clinigol
- Rhaglenni QIST newydd ar gyfer Rhaglen Graddedigion a Rhaglen Interniaeth AaGIC 2022

Ceir rhagor o wybodaeth am bob un o'r datblygiadau arloesol hyn, y sbardunau y tu ôl i'r newidiadau a'u heffaith isod.

Cyflwyno Hanfodion Gwella, fel rhan o gwricwlwm gwella sbiral wedi'i ddiweddaru i Gymru

Gyrrwr ar gyfer Newid

Roedd adborth gan gynrychiolwyr a hyfforddwyr o bob rhan o Gymru wedi nodi'r cyfle i gyflwyno elfen newydd i'r dull presennol o hyfforddi QI yng Nghymru. Dylai'r gydran newydd hon ehangu ar y cyflwyniad cychwynnol i welliant a gafwyd yn IQT Efydd, ond canolbwyntio ar wella tair agwedd ar welliant:

- Offer a thechnegau i ddeall y systemau yr ydym yn gweithio ynddynt
- Meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r Model Gwella a'i gymhwyso'n ymarferol
- Ymrwymiad i ddull parhaus o wella a defnyddio data dros amser.

Byddai'r ychwanegiad newydd hwn hefyd yn rhoi sylfaen fanylach i unigolion sy'n newydd i wella, cyn symud i'r cam nesaf o arwain prosiect gwella fel rhan o *Gwella Ymarfer*.

Roedd hyn yn cynrychioli'r rhaglen Hanfodion Gwella newydd. Yn ogystal â darparu sylfaen dda i'r rhai sy'n newydd i wella, mae Hanfodion Gwella yn cael ei fapio yn erbyn gofynion gwahanol y cwricwlwm ar gyfer QI ar draws gwahanol arbenigeddau, gan gynnwys Ymarfer Cyffredinol. Arweiniwyd y rhaglen Hanfodion Gwella gan Dîm QIST AaGIC a'i chyd-ddylunio gydag Academi Gwelliant Cymru ac mae bellach wedi'i mabwysiadu fel rhan o'u cyfres genedlaethol Gwella hyfforddiant.

Mae'r dull newydd hwn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn Fframwaith Galluoedd Proffesiynol Generig GMC & AoMRC.

Mae Fframwaith Galluoedd Proffesiynol Generig y GMC yn nodi'r galluoedd generig hanfodol sydd eu hangen ar gyfer gofal meddygol diogel, effeithiol ac o ansawdd uchel yn y DU. Mae'r GMC wedi trosi egwyddorion a chyfrifoldebau proffesiynol meddygon yn ganlyniadau addysgol fel y gellir eu hymgorffori o fewn mewn cwricwla. Adlewyrchir y rhain yng nghwricwla diweddaredig y Coleg Brenhinol.

Mae'r fframwaith yn cynnwys 9 parth fel y dangosir yn y diagram isod:

Er mwyn cefnogi meddygon dan hyfforddiant i ddatblygu eu galluoedd yn y meysydd isod, lansiodd AaGIC y Cwricwlwm Generig. Nod y Cwricwlwm Generig yw darparu mynediad i ddatblygiad personol a phroffesiynol i gefnogi a gwella arfer meddygol da ar wahanol gamau o'r Rhaglen

(GMC, n.d.)

Action

Gweithiodd tîm QIST yn agos gyda'r Dirprwy Gyfarwyddwr Gofal Eilaidd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu QI fel rhan o Gwricwlwm Generig AaGIC.

O fis Chwefror 2022, cynigir gweithdy Hanfodion Gwella'r QIST fel gweithdy generig ac mae'n agored i bob arbenigedd (gan gynnwys hyfforddiant Sylfaen), yn ogystal â staff Fferylliaeth a AaGIC.

Mae cefnogi'r Cwricwlwm Generig gyda darpariaeth QI yn cysylltu â pharth 6 Fframwaith Galluoedd Generig a Phroffesiynol y Cyngor Meddygol Cyffredinol - Galluoedd ym maes diogelwch cleifion a gwella ansawdd. Mae cynnig Hanfodion Gwellia mewn fformat generig yn ein galluogi i gynnal mwy o sesiynau, yn darparu cynwysoldeb, mwy o ecwiti o ran mynediad ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd a dewis i feddygon wrth fynychu.

Arfarniad

Cesglir adborth drwy ffurflen adborth safonol a anfonir at unigolion ar ôl cwblhau gweithdy Hanfodion Gwella.

Mae Gweithdai Hanfodion Gwella yn derbyn adborth cadarnhaol yn gyson gydag 89% o holl weithdai Hanfodion Gwella 2021/22 yn derbyn adborth 'da/rhagorol'. Defnyddiodd QIST ddull gwella o werthuso i deilwra ehangu Hanfodion Gwella i gynulleidfa ehangach fel rhan o Gwricwlwm Generig AaGIC.

Camau nesaf

Mae Tîm QIST AaGIC yn gweithio mewn partneriaeth ag Academi Gwelliant Cymru i gefnogi mabwysiadu'r elfen newydd hon o hyfforddiant QI fel rhan o Gyfres Gwelliant Cymru sydd wedi'i diweddaru.

Defnyddio Amgylcheddau Rhithwir ar gyfer Hyfforddi a Mentora mewn Gwella

Gyrrwr ar gyfer Newid

Fe wnaeth dechrau'r pandemig Covid-19 sbarduno rhoi'r gorau i hyfforddiant wyneb yn wyneb. Roedd yr angen am fodel hyfforddiant gwahanol yn galluogi adolygiad radical o raglen QIST a sut i feithrin capasiti a gallu mewn tirwedd newidiol.

Cymhwysodd Tîm QIST fethodoleg QI fel rhan o'r esblygiad mewn dulliau dysgu, gan brofi newidiadau yn y defnydd o amgylchedd dysgu rhithwir a hyfforddiant. Roedd hyn hefyd yn gyfle i ddatblygu datblygiadau arloesol o ran cyflwyno'r cwricwlwm, strwythur, a chymorth i fentoriaid hyfforddwyr. Fel rhaglen genedlaethol, mae'n rhaid i Ansawdd, Effeithiolrwydd a Thegwch mynediad at hyfforddiant fod yn ddigonol i ymgorffori capasiti a gallu QI yn GIG Cymru.

Gweithred

Roedd y llinell amser gweithredu yn cael ei phennu gan y pandemig, ond roeddem yn cydnabod yr angen i ailddechrau hyfforddi, mewn lleoliad rhithwir. Fe wnaeth tîm QIST addasu cyrsiau'n gyflym, mireinio'r rhaglen fodiwlaidd sy'n canolbwyntio ar y prosiect a phrofi ymyriadau/ystafelloedd trafod i annog rhyngweithio.

Defnyddiwyd cylchoedd PDSA i brofi gwahanol ddulliau, ynghyd ag adborth ansoddol gan gyfadrannau a chynrychiolwyr. Casglwyd data ansoddol trwy ffurflen adborth safonol, gan roi cyfle i gynnig syniadau ar gyfer gwella dysgu QI.

Mae gwelliannau i'r cyrsiau a'r ddarpariaeth yn digwydd yn barhaus; mae tiwtoriaid yn trafod profion newid ym mhob cyfarfod tîm QIST.

Arfarniad

Er mwyn mesur ac asesu effaith newidiadau i raglenni, defnyddiodd y Tîm QIST fesurau canlyniadau, prosesau a chydbwyso sy'n deillio o Deulu Mesurau QIST. Mae'r mesurau hyn yn parhau ac yn llywio'r rhaglen wrth i'r rhaglen barhau i esblygu gyda'r defnydd o gyflwyno rhithiol ac wyneb yn wyneb yn y dyfodol.

Mae'r Tîm QIST hefyd yn parhau i ddefnyddio data ansoddol a gymerwyd o ffurflenni adborth. Roedd y dull cyfunol hwn yn golygu bod y tîm yn gallu cynnal a datblygu capasiti a gallu mewn methodoleg gwella yn ystod y pandemig, gan gynnwys drwy gydol cyfnodau clo, hyd yn oed llwyddo i gynyddu nifer ein cynrychiolwyr fel y disgrifiwyd yn gynharach.

Yn ystod y cyfnod hwn, roedd llawer o Diwtoriaid QIST, ynghyd â chydweithwyr, hefyd yn cynnal rolau clinigol rheng flaen ar draws Gofal Sylfaenol ac Eilaidd.

Mae adborth y cwrs rhithwir wedi bod yn rhagorol yn gyson: cymedr 96.5-98.4% o gynrychiolwyr yn nodi 'dda'/'rhagorol'.

During a major pandemic, we:

- Cynyddu capasiti a gallu mewn QI o fewn GIG Cymru
- Darparu mwy o degwch o ran mynediad i hyfforddiant QI yng Nghymru

Camau nesaf

Bydd datblygiad y rhaglen QIST yn y dyfodol yn ceisio cefnogi dull hyfforddi hybrid ar gyfer cyflwyno gweithdai. Wrth symud at ddefnyddio hyfforddiant rhithwir, gwelwyd gwelliant yn y tegwch o ran mynediad at hyfforddiant ledled Cymru, sy'n cael ei adlewyrchu yn y niferoedd presenoldeb.

Bydd Gwella Ymarfer yn cael ei ddarparu'n bennaf ar ffurf wyneb yn wyneb, fodd bynnag, yn seiliedig ar yr adborth uchod byddwn yn cynnal y defnydd o amgylcheddau dysgu rhithwir lle bo angen.

Bydd Hanfodion Gwella yn parhau i fod ar gael fel gweithdy rhithwir.
Bydd y Tîm QIST yn parhau i fonitro 'themâu' sy'n deillio o adborth ansoddol er mwyn llywio datblygiadau pellach o ran cyrsiau bosib. Mae llawer o gynrychiolwyr yn mynychu'r cyrsiau i gyrraedd cerrig milltir hyfforddiant gorfodol.

Y cam nesaf yw i QIST ganolbwyntio ar y gallu hwn yn cael ei droi'n brosiectau gwella ar ôl cael eu hachredu, — mae'r effaith ar gleifion a theuluoedd i ddod unwaith y bydd y meddygon, y deintyddion a'r fferyllwyr dan hyfforddiant, arwain prosiectau QI o fewn maes o'i ddewis, mae rhai enghreifftiau o brosiectau o'r fath wedi'u cynnwys yn gynharach yn yr adroddiad.

Rhaglen Hyfforddwyr QIST ar gyfer Goruchwylwyr Addysgol a Goruchwylwyr Clinigol

Gyrrwr ar gyfer Newid

Mae llawer o'r cwricwla addysgol newydd sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y GMC ers 2020, yn ei gwneud yn ofynnol i feddygon dan hyfforddiant ymgymryd â phrosiect QI er mwyn cwblhau deilliannau dysgu eu cwricwlwm perthnasol. Mae hyn yn adlewyrchu'r pwyslais ar QI sy'n cael ei adlewyrchu yn Fframwaith Galluoedd Proffesiynol Generig GMC/AOMRC. Mae gan ddeintyddion dan hyfforddiant ofyniad tebyg.

Roedd adborth gan hyfforddwyr ac addysgwyr ledled Cymru yn awgrymu bod angen adnoddau QI penodol i Hyfforddwyr i gefnogi goruchwyliaeth addysgol, prosiectau lleol a datblygu ac asesu.

Gweithred

Yn hydref 2021, yn dilyn trafodaethau gyda Phennaeth yr Ysgol Arbenigol ar gyfer Pediatreg ac Iechyd Plant, treialodd QIST weithdy QI penodol i hyfforddwyr ar gyfer goruchwylwyr addysgol. Roedd y peilot hwn yn adeiladu ar waith cwmpasu cynharach ar draws ysgolion arbenigol eraill yn archwilio gwahanol ofynion hyfforddwyr, yn ogystal â chyflwyniadau QI a gyflwynwyd gan Gyfadran QIST i hyfforddwyr ar draws cyfarfodydd addysgol gofal sylfaenol ac eilaidd.

Profodd y gweithdy newydd i fod yn hynod boblogaidd, gwerthwyd pob tocyn mewn cyfnod byr a chynhyrchodd restr aros o 29 o unigolion, gan gadarnhau y dylai QI i hyfforddwyr fod yn rhan o'r rhaglen QIST ehangach.

Arfarniad

Gofynnwyd i fynychwyr y gweithdy peilot lenwi ffurflen adborth, gyda 100% o'r adborth a dderbyniwyd wedi'i gategoreiddio'n 'rhagorol' neu'n 'dda'. Byddai'r holl ymatebwyr yn argymell y gweithdy i eraill a phan ofynnwyd iddynt am agwedd fwyaf defnyddiol y gweithdy, roedd yr adborth yn cynnwys:

"Deall beth sydd angen i'r hyfforddeion ei gyflawni a'r hyn y mae angen iddyn nhw ei wneud i gael mynediad at hyfforddiant ac ati.

“Rwyf wedi cael gwell dealltwriaeth o derminoleg a methodoleg o fewn QI a nawr gallaf weld sut y gallaf ddefnyddio hyn yn fy ymarfer clinigol.”

Camau nesaf

Yn seiliedig ar yr adborth cadarnhaol o'r gweithdy peilot a gwaith blaenorol arall gydag ysgolion arbenigol, datblygodd QIST gynnig hyfforddiant QI pwrpasol ar gyfer hyfforddwyr.

Bydd y Rhaglen Hyfforddwr QIST newydd yn cael ei lansio yn hydref 2022 a bydd yn cael ei chyflwyno mewn partneriaeth ag ysgolion arbenigol, ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd, deintyddol a fferylliaeth. Cydnabyddir ei bod yn bwysig cael dull ffurfiol a chyson y gellir ei ddefnyddio ar draws ystod o arbenigeddau a lleoliadau.

Bydd y rhaglen yn cynnwys hyfforddiant ar Hanfodion Gwella, ynghyd â chanllawiau arbenigol penodol ar gwricwlwm QI a gofynion asesu i gefnogi dilyniant trwy hyfforddiant.

Mae QIST wedi dilyn arfer gorau wrth ddatblygu'r rhaglen o amgylch anghenion addysgol y Goruchwylwyr Addysgol, a bydd y gweithdy hefyd yn cynnwys 'sesiwn agored' ar awgrymiadau ymarferol ar gyfer goruchwylio prosiectau QI. Bydd y gweithdai yn cefnogi datblygu rhwydweithiau addysgwyr QI yn ogystal â darparu llyfrgell o adnoddau QI i gefnogi goruchwylwyr addysgol gyda gweithgareddau QI.

Bydd hyfforddwyr yng Nghymru yn parhau i gael mynediad at weithdai Gwella Ymarfer QIST.

Rhaglenni QIST newydd ar gyfer Rhaglen Graddedigion a Rhaglen Interniaeth AaGIC 2022

Rhaglen Beilot Rhaglen Graddedigion AaGIC

Gyrrwr ar gyfer Newid

Mae Rhaglen Graddedigion Rheolaeth Gyffredinol GIG Cymru yn rhaglen ddwy flynedd sydd wedi'i chynllunio ar gyfer darpar arweinwyr GIG Cymru'r dyfodol, gan ennill gwybodaeth academaidd yn ogystal â phrofiad dysgu ymarferol, wedi'i lleoli mewn lleoliadau ledled Cymru mewn adrannau gofal sylfaenol, gofal eilaidd a chorfforaethol. Mae graddedigion yn ymgymryd â rhaglen Meistr a ariennir yn llawn ochr yn ochr â dysgu’n seiliedig ar waith. Mae AaGIC yn datblygu arweinwyr sy'n gallu gyrru rhagoriaeth drwy feddwl yn greadigol ac yn arloesol er mwyn gwella profiad ac iechyd pobl Cymru. Fel rhan o'r rhaglen, mae gan y graddedigion fynediad at becyn o ddysgu proffesiynol i gefnogi eu datblygiad.

Cysylltodd Arweinydd y Rhaglen i Raddedigion â QIST i ganfod yr hyn y gallem ei gynnig fel rhan o'r pecyn dysgu gan fod awydd am hyfforddiant QI o ystyried y bydd rhai o'r graddedigion yn gwneud gwaith gwella ansawdd fel rhan o'u lleoliadau.

Gweithred

Mae tîm QIST yn cyflwyno gweithdy Gwella Ymarfer pwrpasol ar gyfer y rhai ar y Rhaglen Rheoli i Raddedigion, yn ogystal â chynnig cymorth prosiect parhaus un i un gyda Thiwtor QIST lle bo angen. Cynhelir y gweithdai yn ystod Haf 2022.

Arfarniad

Fel gyda phob gweithdy, gofynnir i fynychwyr lenwi ffurflen adborth y byddwn yn ei defnyddio i werthuso llwyddiant a llywio gwelliannau gweithdy yn y dyfodol.

Bydd QIST yn parhau i weithio'n agos gydag Arweinydd y Rhaglen i Raddedigion i bennu gofynion y rhaglen yn y dyfodol. Mae'r gweithdy'r haf hwn yn beilot, ac os oes gofyniad i hyn fod yn rhan reolaidd o'r rhaglen wrth symud ymlaen, bydd QIST yn edrych i ddatblygu'r cynnwys ymhellach i'w wneud yn bwrpasol ar gyfer y Rhaglen i Raddedigion (e.e., enghreifftiau prosiect penodol).

Camau nesaf

Cyflwyno gweithdy ac asesu adborth i helpu i lywio gofynion y dyfodol, a gweithio gydag Arweinydd y Rhaglen i Raddedigion i gynnwys cynnig y Rhaglen i Raddedigion yn rhaglen hyfforddiant QIST, lle bo angen.

Rhaglen Interniaeth Haf AaGIC

Gyrrwr ar gyfer newid

Mae Interniaeth Haf AaGIC yn rhaglen 6-8 wythnos lle mae interniaid yn cael eu lleoli mewn gwahanol adrannau o'r sefydliad i ddatblygu prosiect cenedlaethol/rhanbarthol. Mae gan lawer o'r prosiectau elfen o welliant, ac ar gyfer carfan 2021/22, cysylltodd yr Arweinydd Interniaeth â thîm QIST i drefnu rhywfaint o gefnogaeth QI i'r interniaid.

Gweithred

Er mwyn cefnogi'r interniaid gyda'u prosiectau, cyflwynodd QIST sesiwn cefnogi prosiect. Yn ystod eu hwythnos gyntaf, gofynnwyd i interniaid gyflwyno eu cynlluniau prosiect i banel o Diwtoriaid QIST a roddodd gyngor, awgrymiadau ac arweiniad ar y ffordd orau o ymgymryd â'u prosiect penodedig, gan ddefnyddio offer a methodoleg gwella.

Arfarniad

Roedd adborth gan Arweinydd Interniaeth yn nodi, er bod yr interniaid o'r farn bod y sesiwn yn hynod ddefnyddiol, ond, roedd wedi'i threfnu'n rhy gynnar yn y rhaglen, ac nad oeddent wedi cael digon o gyfle i feddwl am sut yr oeddent am ymgymryd â'u prosiect.

Byddai interniaid hefyd wedi croesawu gweithdy QI er mwyn deall yn well offer a methodoleg QI y gellid eu cymhwyso i'w prosiectau. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen ei ystyried wrth gynllunio ar gyfer carfannau yn y dyfodol.

Camau Nesaf

Mae Interniaeth Haf 2022 AaGIC yn dechrau ym mis Gorffennaf. Yn seiliedig ar yr adborth o 2021 a thrafodaethau manwl gyda'r Arweinydd Interniaeth, bydd QIST yn cyflwyno gweithdy Hanfodion Gwella pwrpasol ar gyfer yr interniaid. Bydd hyn yn digwydd yn ystod wythnos gyntaf eu lleoliad gyda AaGIC.

Yn eu hail wythnos, gofynnir i'r interniaid gyflwyno eu cynlluniau prosiect i banel o Diwtoriaid QIST, am gyngor ac arweiniad pellach. Bydd cynnal gweithdy cyn y panel yn rhoi cyfle i'r interniaid gymhwyso eu dysgu o'r gweithdy i'w cynlluniau prosiect a bydd yn rhoi amser iddynt feddwl am unrhyw feysydd prosiect penodol y gallai fod angen cymorth arnynt.

Cefnogi Gwelliant ac Arloesi ar draws y system Gofal Iechyd ehangach yng Nghymru.

Rhaglen Arweinydd Gwella'r Alban (SciL) Academi Gwelliant Cymru 2021/22

Fel rhan o ddatblygiad parhaus y lefel arbenigol o hyfforddiant gwella ar gyfer GIG Cymru, darparodd Gwelliant Cymru ail garfan o gwrs Arweinydd Gwellia yr Alban (sy'n cyfateb i lefel Ymgynghorydd Gwella IHI) ar gyfer y flwyddyn 2021/22.

Mae Dr Gethin Pugh, Arweinydd Clinigol QIST, ymgynghorydd gofal dwys ac Anesthetydd a Deon Cyswllt AaGIC, yn ymgymryd â rôl y Gyfadran Arweiniol ar gyfer y rhaglen lefel arbenigol hon fel rhan o'i rôl fel Arweinydd Clinigol Academi Gwelliant Cymru.

Dechreuodd y rhaglen ym mis Tachwedd 2021 ac mae'n cael ei chyflwyno dros gyfnod o 10 mis, gan gefnogi mwy nag 20 o gyfranogwyr o bob cwr o Gymru i ddyfnhau eu harbenigedd mewn gwella ac arwain gwelliannau ar draws GIG Cymru er budd cleifion a staff.

Mae Sue Stokes, Addysgwr QI Deintyddol AaGIC, a Chyfarwyddwr Rhaglen Hyfforddiant ar gyfer Cynllun DCT1 Caerdydd wedi bod yn aelod o'r Rhaglen Arweinwyr Gwella diweddaraf sy'n gweithio ar wella iechyd deintyddol. Fel rhan o'r rhaglen, mae'n ofynnol i Sue ymgymryd â phrosiect QI, ac yn hyn o beth, bydd Sue yn treialu prosiect QI newydd ar gyfer y Deintyddion Sylfaen (FD) yng Nghymru. Bydd y prosiect hwn yn defnyddio'r sesiynau methodoleg QI o'r D2S llwyddiannus tra'n canolbwyntio ar grwpiau o'r boblogaeth a nodwyd gan ddefnyddio'r pecyn cymorth Asesu Risg ac Anghenion Clinigol y Geg (ACORN). Enw'r prosiect QI newydd ar gyfer FDs yw "Cefnogi Gwell Iechyd y Geg" ac mae'n canolbwyntio ar fetrigau a fesurir yng nghontract deintyddol newydd y GIG ar gyfer oedolion.

Gwobr Gwella AaGIC

Mae Gwobr Gwella AaGIC yn gyfle i staff ar draws GIG Cymru rannu'r gwaith gwella ansawdd y maent wedi'i wneud.Mae'n ofynnol i gystadleuwyr gyflwyno prosiect QI wedi'i gwblhau i'w ystyried gan banel y wobr, gyda'r enillwyr yn derbyn cefnogaeth a chyllid i'w gwaith gael ei gyhoeddi yn y cyfnodolyn cenedlaethol perthnasol.

Cafwyd 22 o gyflwyniadau eleni, o amrywiaeth o arbenigeddau a phroffesiynau, a dyfarnwyd y wobr i Dr Isobel Joy McFadzean, meddyg teulu a gwblhaodd brosiect ar ragnodi "Rhagnodi Uniongyrchol o wrthgeulydd a gymerir dwy'r geg (DOAC) ym Meddygfa Clydach, Abertawe'. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y prosiect hwn o dan adran Prosiect Gwella Ansawdd yr adroddiad hwn.

Gwella Ansawdd Trwy Efelychu

Mae QIST wedi gweithio mewn cydweithrediad â Thîm Efelychu AaGIC i ddatblygu 'Gwella Ansawdd Trwy Efelychiad'.

Y ddogfen hon yw'r gyntaf o'i math yn rhyngwladol a bydd yn cael ei chyhoeddi yn Hydref 2022.

Mae'n cyflwyno timau i sut y gellir defnyddio addysg sy'n seiliedig ar efelychiad fel rhan o ddull gwella i wella diogelwch cleifion.

Rhaglen Cynaliadwyedd QIST

Mae Gweithgor Gofal Iechyd Cynaliadwyedd AaGIC wedi bod yn gweithio i nodi adnoddau defnyddiol i gefnogi gwaith cynaliadwyedd ac mae'r grŵp bellach yn archwilio sut y gall hyn symud i'r cam nesaf o gefnogi unigolion i gymhwyso egwyddorion cynaliadwyedd, yn enwedig mewn perthynas â gwaith QI.

I gefnogi'r ffrwd waith pwysig hon, mae QIST wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Gofal Iechyd Cynaliadwy ers peth amser a byddant yn treialu ffrwd Gweithdy Cynaliadwyedd mewn Gofal Iechyd QIST yn yr Hydref, i ddysgu mwy am sut y gall y rhaglen gefnogi unigolion gorau i ymgymryd â phrosiect QI ym maes cynaliadwyedd amgylcheddol.

Mae llawer o brosiectau QIST eisoes wedi'u cynnal yn y maes hwn a bydd y rhaglen weithdai newydd hon yn ddefnyddiol i alinio ein gwaith o fewn maes hwn i gefnogi datblygu sgiliau mewn QI a chynaliadwyedd, ar gyfer meddygon, deintyddion a fferyllwyr, yn ogystal â chefnogi ffrydiau gwaith eraill AaGIC.

Fel rhan o'r agenda cynaliadwyedd, bydd QIST hefyd yn mentora Cymrawd Cynaliadwyedd fel rhan o raglen Cymrodoriaeth Gofal Iechyd Cynaliadwy. Mae'r rhaglen yn rhoi cyfle unigryw i unigolion sydd ag angerdd am gynaliadwyedd i fireinio eu sgiliau arwain a chael dealltwriaeth o egwyddorion cynaliadwyedd drwy weithio ochr yn ochr ag

uwch arweinwyr yn y GIG i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac arwain yn lleol, cenedlaethol a byd-eang newid.

Bydd y Cymrawd Cynaliadwyedd o fewn QIST, yn ymgymryd â phrosiect ar Wella Ansawdd Cynaliadwy, gan weithio i integreiddio cysyniadau cynaliadwyedd mewn prosiectau gwella ansawdd ac addysgu.

Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol Uwch

Datblygwyd y Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol Uwch gan y Tîm Arweinyddiaeth yn AaGIC. Mae'r rhaglen wedi'i hanelu at uwch weithwyr proffesiynol clinigol yn GIG Cymru, sydd â chyfrifoldebau rheoli ac arwain sylweddol. Nod y rhaglen yw creu carfan o glinigwyr amlbroffesiynol sydd gyda'r wybodaeth, sgiliau, hyder ac uchelgais i ymgymryd â rolau uwch arweinyddiaeth, ffurfiol o fewn GIG Cymru.

Fel rhan o'r rhaglen, bydd gofyn i ymgymryd â phrosiect gwella, strategol neu drawsnewid. Er mwyn cefnogi'r maes gwaith hwn a dealltwriaeth o wella ansawdd a'r offer a'r fethodoleg gysylltiedig, bydd QIST yn cyflwyno cyflwyniad i Wella ar ddechrau'r rhaglen yr hydref hwn, er mwyn rhoi trosolwg o'r defnydd o egwyddorion gwella ac enghreifftiau o lwyddiant rheoli newid.

Bydd Tîm QIST hefyd yn datblygu ac yn cyflwyno gweithdy Gwella pwrpasol ar gyfer y rhaglen yn gynnar yn 2023.

Gwybodaeth bellach

IOs oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau mewn perthynas â chynnwys yr adroddiad hwn o waith QIST, cysylltwch â'r tîm yn **HEIW.QIST@wales.nhs.uk**.